y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 1 | DYDD GWENER, IONAWR 1, 2010 | Pris 40c

‘YR ETIFEDDIAETH DEG’ – 1884-2009

Yn ystod mis Tachwedd 2009 dathlwyd 125 mlynedd o achos yr Arglwydd Iesu yn Eglwys y Crwys, Caerdydd. Priodol oedd dewis tri digwyddiad i ddathlu’r achlysur – oedfa, darlith a chyngerdd.

Bore Sul, Tachwedd 15fed, cynhaliwyd y Gwasanaeth Dathlu dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Glyn Tudwal Jones. Anogodd yr aelodau, tra’n dathlu a diolch am y gorffennol, ein her yn awr yw gallu addasu i’r anghenion presennol ac edrych i’r dyfodol gyda’r un hyder a’r ffyddlondeb a nodweddai’r rhai a sefydlodd yr achos yr ydym ni mor ddyledus iddynt. Cymerwyd rhan hefyd gan Gôr Plant yr Ysgol Sul o dan arweiniad Mrs. Siân Griffiths a chafwyd atgofion am y tri degau gan Mr. Gareth Lloyd Jones, blaenor, ac o bosib yr hynaf o ‘blant yr eglwys’ sy’n gallu mynychu’r oedfaon erbyn hyn. Braint oedd cael cyfarchiad gan y cyn-Weinidog, y Parch. W.I. Cynwil Williams a gyflwynodd un o’r tri trowel a gyflwynwyd yn wreiddiol i dri o ffyddloniaid yr achos yn Horeb pan symudwyd oddi yno i Heol y Crwys ac a gyfrannodd £100 yr un tuag at y gwaith o godi’r capel.

Nos Wener, Tachwedd 27ain, traddodwyd Darlith y Dathlu’ gan yr Athro Ddr. John Gwynfor Jones ar y testun ‘Yr Etifeddiaeth Deg’ Rydym yn hynod o ffodus yn y Crwys fod gennym Hanesydd ac Ysgolhaig mor amryddawn â’r Athro John Gwynfor Jones sydd bob amser mor barod ei gymwynas i weithgareddau pob cymdeithas yn yr eglwys.

Nos Sul, Rhagfyr 6ed, yn dilyn yr oedfa hwyrol, cynhaliwyd Cyngerdd y Dathlu gyda Chôr CF1, criw byrlymus o ieuenctid sy’n ymarfer yn wythnosol yng Nghapel y Crwys.

Yn ogystal â’r digwyddiadau hyn cyhoeddwyd llyfryn y dathlu ‘Yng Ngolau Ffydd’ dan olygyddiaeth yr Athro John Gwynfor Jones. Ynddo ceir cyfraniadau gan y Parch. Glyn Tudwal Jones, y Parch. W.I. Cynwil Williams, Yr Athro John Gwynfor Jones, Mr. D. Gwyn Jones, Mr. Gareth Lloyd Jones a Mrs. Gwen Edwards. Mae’n llyfryn gwerthfawr iawn sy’n adrodd hanes, hel atgofion a’r anogaeth i wynebu’r her i’r dyfodol.

Gyda Caerdydd yn tyfu fel tref ddiwydiannol a masnachol o tua 1800 ymlaen a chyda nifer o Gymry Cymraeg yn ymsefydlu yno, sefydlwyd nifer o eglwysi Cymraeg gan y gwahanol enwadau. Yn 1827 agorwyd Capel Seion, gan y Methodistiaid Calfinaidd, ynghanol y dref (ar safle’r Hen Lyfrgell yn yr Ais heddiw) ond yn 1878 penderfynodd yr aelodau i’w gau a’i werthu i’r Gorfforaeth a symud i adeilad newydd yn Churchill Way (heddiw), sef Pembroke Terrace – capel hardd, hynod ei bensaerniaeth a fu’n gartref ysbrydol i nifer o Fethodistiaid Calfinaidd Cymraeg o dan weinidogaeth y Parch. J. Morgan Jones a fu’n gwasanaethu’r Eglwys am dros ddeng mlynedd ar hugain.

Ond gyda Caerdydd yn parhau i dyfu’n gyflym a chynnydd yn nifer y mewnfudwyr Cymraeg, roedd angen sefydlu eglwys newydd ar gyrion y dref ac yn 1884 agorwyd Horeb, May St. ar Dachwedd 14eg gyda 32 o aelodau. Roedd Ysgol Sul eisoes yn cael ei chynnal mewn tŷ yn Mundy Place a Chyfarfod Gweddi mewn ystafell yn May St. Addaswyd Horeb ar gyfer ei ddefnyddio fel addoldy am gost o £500. Etholwyd blaenoriaid a gwahoddwyd y Parch. David Davies i weinidogaethu.

Gyda’r boblogaeth yn dal i dyfu yn ardal Cathays a’r cyffiniau, roedd yn rhaid wrth adeilad mwy ac ar nos Sadwrn, Mai 19eg, 1900 yr agorwyd capel Heol y Crwys gyda’i arddull bensaerniol unigryw. Adeiladwyd y capel am gost o £2,600 gan Harry Gibbon a braf yw nodi bod ei ddau gor-gor ŵyr, Krištof a Rhodri, ymysg aelodau ffyddlonaf yr Ysgol Sul heddiw.



Yn 1900 roedd rhif aelodau’r eglwys yn 176 a chyrhaeddwyd y penllanw yn yr 80’au gyda 500 o aelodau. Yn y cyfnod hwn roedd oedfaon yr hwyr yn llawn o fyfyrwyr. Yn anffodus, prin iawn yw’r nifer y dyddiau hyn.

Buwyd yn addoli yn Heol y Crwys tan 1988 pan symudwyd i’r capel newydd yn Richmond Road. Dros y blynyddoedd bu’r eglwys yn ffodus o gael gwasanaeth Gweinidogion o’r radd flaenaf; pregethwyr huawdl a bugeiliaid ymroddedig – y Parch. William Davies (1903-35), y Parch. T.J. Jones (1936-52), y Parch. D. Lodwig Jones (1953-75), y Parch. W.I. Cynwil Williams (1976-2001) a’r Parch. Glyn Tudwal Jones (2001 ymlaen). Ar ddyfodiad y Parch. W.I. Cynwil Williams yn 1976, oherwydd lleihad yn nifer yr aelodau, bu’n rhaid cau capel Pembroke Terrace ac ymunwyd â Chapel Heol y Crwys.

Bu Eglwys y Crwys yn llawn bwrlwm o wahanol weithgareddau ar hyd y blynyddoedd a bu nifer o’r aelodau yn arweinyddion ymroddedig yn yr Ysgol Sul a chymdeithasau eraill.

Yn Hydref 1949 y cyhoeddwyd ‘Y Gadwyn’, cylchgrawn misol yr eglwys, am y tro cyntaf ac mae wedi ymddangos yn ddi-dor ers hynny. Mae’r ‘Gadwyn’ heddiw, dan olygyddiaeth yr Athro John Gwynfor Jones a grŵp o aelodau brwdfrydig yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr iawn i’r aelodau gyda’i ddiwyg graenus a lliwgar.

Mae gweithgareddau’r eglwys yn parhau yr un mor gyfoethog a brwdfrydig - yr Ysgol Sul, y Clwb Ieuenctid, y Gymdeithas Ddrama, Y Gymdeithas, Y Grŵp Merched, Y Grŵp Ymweld a’r Cylch Cymorth. Mawr yw ein dyled i’r Gweinidog, y Parch. Glyn Tudwal Jones, a Swyddogion yr eglwys am eu hymroddiad llwyr i’r achos er mwyn sicrhau, er yr holl anawsterau, y bydd ‘Yr Etifeddiaeth Deg’ yn cael ei throsglwyddo i’r genhedlaeth nesaf.

Nans Couch